Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Cyllid**
—
Welsh Parliament
**Finance Committee**

Russell George AS

Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

2 Mai 2023

Annwyl Russell,

## Craffu ar Fyrddau Iechyd

Diolch am eich llythyr dyddiedig 24 Ebrill.

Rwy'n croesawu'n fawr y ffaith eich bod chi wedi dod â'r materion pwysig hyn i'n sylw. Mae byrddau iechyd yn cael symiau sylweddol o arian cyhoeddus, ac o'r herwydd mae'n hanfodol bod y Senedd yn craffu'n drylwyr arnynt er mwyn sicrhau gwerth am arian a defnydd priodol o adnoddau cyhoeddus.

Fel y gwyddoch, mae'r rhain yn faterion y mae'r Pwyllgor Cyllid wedi'u hystyried o'r blaen, yn fwyaf diweddar drwy ein gwaith craffu ar Ail Gyllideb Atodol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2022-23. Gwnaeth ein hadroddiad, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth, yr argymhelliad a ganlyn mewn perthynas â pherfformiad ariannol byrddau iechyd, a fydd o ddiddordeb i'ch Pwyllgor:

> *"**Argymhelliad 5**. Mae'r Pwyllgor yn argymell fel a ganlyn:*
>
> - *Bod mesurau'n cael eu cymryd gan Lywodraeth Cymru i sicrhau nad yw pob bwrdd iechyd lleol yng Nghymru yn mynd y tu hwnt i'w gyllid dros y cyfnodau treigl o dair blynedd, fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Cyllid y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2014; a*
> - *lle mae Byrddau Iechyd Lleol yn gorwario mewn un flwyddyn, dylai'r rhain gael eu hariannu o gyllideb bresennol yr adran iechyd a gwasanaethau cymdeithasol."*

Yn ei hymateb, dywedodd y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol:

> *"Mae Deddf Cyllid y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2014 yn cynnwys y cyfrifoldeb i bob Bwrdd Iechyd Lleol adennill costau dros gyfnod cyfrifyddu o dair blynedd a pharatoi cynlluniau i wneud hynny. Mae'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'i swyddogion yn monitro perfformiad yn rheolaidd o ran y ddyletswydd hon ac yn gweithredu mesurau uwchgyfeirio pan fo*

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCyllid@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddFinance@senedd.wales
0300 200 6565

> *angen. Mae cyfrifon wedi'u harchwilio pob corff yn cynnwys adrodd am berfformiad o ran y cyfrifoldeb hwn.*
>
> *Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl bod pob Prif Grŵp Gwariant, pan fo'n bosibl, yn cwrdd ag unrhyw bwysau ariannol sy'n codi yn y flwyddyn, yn y lle cyntaf, o'u cyllidebau presennol. Pan nad yw hyn yn bosibl, neu pan wneir diwygiadau eraill i gyllidebau, byddwn yn cyhoeddi newidiadau yn unol â'n proses y cytunwyd arni ar gyfer cyllidebau atodol."*

Yn ogystal â'r dull strategol a fabwysiadwyd gan y Pwyllgor mewn perthynas â chraffu ar gynigion cyllidebol Llywodraeth Cymru, mae'n egwyddor sydd wedi'i hen sefydlu bod pwyllgorau unigol yn parhau i graffu ar faterion ariannol sy'n dod o fewn eu cylchoedd gorchwyl.

Mae hyn wedi gweithio'n effeithiol yn ystod y Chweched Senedd hyd yma, gan alluogi pwyllgorau polisi i ymchwilio i feysydd penodol tra'n caniatáu i'r Pwyllgor Cyllid ddefnyddio dull lefel uchel ac ystyried cynigion cyllidebol Llywodraeth Cymru yn eu cyfanrwydd.

Byddwn felly yn parhau i fynd ar drywydd materion sydd o bwysigrwydd strategol fel y rhain fel rhan o'n rhaglen waith, yn enwedig yn ystod ein gwaith craffu ar gynigion Cyllideb Ddrafft a Chyllideb Atodol Llywodraeth Cymru. Hyderaf y byddwch hefyd yn cynnal gwaith craffu ar fyrddau iechyd, yn ogystal â materion ariannol allweddol eraill yn eich cylch gorchwyl, pan ddaw'r amser.

Yn gywir

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.